

Roedd **Nerys** yn hoffi gwneud **hud a lledrith**.

Roedd **Nerys** yn hoffi gwneud **hud a lledrith** oherwydd yr het arbennig roedd hi'n cael ei gwisgo.



Het **ddu**, grand a oedd ychydig yn rhy fawr i'w phen.

Bob bore byddai **Nerys** yn gwneud **hud a lledrith** ar ei mam.

Bob amser cinio yn yr ysgol byddai **Nerys** yn gwneud **hud a lledrith** ar ei ffrindiau.

A bob nos byddai **Nerys** yn gwneud **hud a lledrith** ar ei thad.

Yr hud a llefrith byddai **Nerys** bob tro yn ei wneud oedd tynnu potel fach o lefrith allan o'i het.

A dyna pam roedd **Nerys** yn galw ei thriciau yn **hud a llefrith**.

Doedd neb yn gallu dyfalu sut yn y byd roedd hi'n llwyddo i wneud y fath beth.



Byddai pawb yn syllu arni gyda'u cegau yn gwneud y siâp 'O'.

Ar ôl iddi orffen y tric byddai pawb yn ymbil arni i wneud y tric unwaith eto.

Ac eto.

Ac eto.

Ac eto.

Ond roedd **Nerys** methu gwneud ei thriciau ar ei phen ei hun...

Yn aml iawn byddai'n holi am help ei ffrind dychmygol, **Nel**.



Roedd **Nerys** a **Nel** yn mwynhau gwneud **hud a llefrith** ar bawb, yn enwedig yn yr ysgol.

A dyma stori am sut wnaeth **hud a llefrith** **Nerys** a **Nel** achub y dydd.

Ar un ddiwrnod glawog yn **Ysgol y Felin Fawr** roedd hi'n amser chwarae gwlyb ac roedd **Nerys** yn ymarfer ei thriciau gyda thorff o'i chyd-ddisgyblion yn ei gwyllo'n eiddgar.

Roedd **Nerys** wedi dweud y geiriau hud,

"Abra-cadabra, Abra-cadabri"

ac aeth ei llaw i mewn i'r het. Roedd pawb yn ysu i weld y botel o lefrith a fyddai'n dod allan o'r het.

Ond tro yma, tynnodd **Nerys afal** allan o'i het.

Edrychodd pawb yn syn. Doedd neb wedi gweld **Nerys** yn tynnu unrhyw beth allan o'r het ar wahân i botel o lefrith.

Dwedodd **Nerys** y geiriau hud eto,

"Abra-cadabra, Abra-cadabri"



ac aeth ei llaw i mewn
i'w het unwaith eto.

Tro yma, tynnodd
Nerys fanana allan
o'i het.

Doedd neb yn gallu
credu eu llygaid.
Banana?!

Ble roedd y poteli o
lefrith wedi mynd?

Rhoddodd **Nerys** un
cynnig arall arni.

Dwedodd y geiriau hud,


**"Abra-cadabra,
Abra-cadabri"**

ac aeth ei llaw i mewn
i'w het unwaith eto.

Tro yma, tynnodd
Nerys oren allan o'i
het.

Doedd neb yn gallu
credu eu llygaid.
Oren?!

Ble roedd y poteli o
lefrith wedi mynd?



Trodd **Nerys** at ei ffrind dychmygol, **Nel**, ond roedd **Nel** yr un mor ddryslyd â Nerys.

O, na! Roedd **Nerys** wedi colli ei **hud a llefrith!**

Yn sydyn, cyhoeddodd yr athro nad oedd llefrith ar ôl a bod pawb am gael dŵr gyda eu ffrwythau yn lle.

Roedd pawb yn nosbarth blwyddyn dau **Ysgol y Felin Fawr** wedi eu siomi.

Dechreuodd Hanna grio.



Dechreuodd Siôn weiddi. Dechreuodd Twm bwdu.

Roedd amser chwarae gwlyb dosbarth blwyddyn dau **Ysgol y Felin Fawr** wedi ei ddinistrio.

Sut roedd unrhyw un yn disgwyl bwyta eu ffrwythau heb lefrith?

Dim ond un person a fyddai'n gallu achub y dydd.

A **Nerys** oedd y person hwnnw.

Trodd pawb i edrych ar **Nerys**, gan gynnwys Hanna a oedd wedi stopio crio erbyn hynny.

Anadlodd **Nerys** yn ddwfn.

Roedd yr amser wedi cyrraedd i brofi ei thalent i bawb.

Roedd yr amser wedi cyrraedd i ddangos i bawb bod **hud a llefrith** yn rhywbeth arbennig.

Dechreuodd **Nerys**, a'i ffrind dychmygol **Nel**, ddweud y geiriau hud ac ymunodd gweddill y dosbarth, gan gynnwys yr athro, trwy ddweud

“Abra-cadabra, Abra-cadabri”.

Caeodd **Nerys** ei llygaid ac aeth ei llaw i mewn i'r het ddu, grand.



Yn araf, araf bach tynnodd **Nerys** botel o lefrith allan o'r het.

Agorodd **Nerys** ei llygaid i weld nad potel arferol o lefrith ydoedd ond potel anferthol o lefrith.



Digon i rannu o gwmpas y dosbarth i gyd.

Bloeddiodd pawb mewn hapusrwydd. Roedd **hud a llefrith Nerys a Nel** wedi achub y dydd ac am flynyddoedd ar ôl hynny byddai pawb yn siarad am y diwrnod roedd **Nerys** wedi tynnu potel anferthol o lefrith o'i het hud.

Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans